# Cofnodion Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

**Teitl y Cyfarfod: Fforwm Rheoli Dŵr Cymru**

**Lleoliad: Parc Gwledig Tŷ Mawr**

**Dyddiad y Cyfarfod: 10 Mawrth 2020**

**Aelodau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a oedd yn Bresennol:**

**Yn Bresennol:** Yr Athro Steve Ormerod (CADEIRYDD), Ceri Davies (CNC), Rhian Thomas (CNC), Ceri Jones (CNC), Chiara Caserotti (CNC), Richard Dearing (CNC), Helen Millband (CNC), Eifiona Williams (LIC), Fergus O'Brian (DCWW), Liz Franks (HD), Richard Blakewell (WRW, yn cyflenwi ar gyfer UU), Dennis Matheson (TFA Cymru), Ian Watson (CA), Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru), Bob Gilchrist (CCGC), Stephen Marsh-Smith (Afonydd Cymru ar ran CAC)

**Ymddiheuriadau:** Sian Williams (CNC), Anthony Geddes (Confor), Luke Davies (Is-adran y Môr a Physgodfeydd LIC), Bernard Griffiths (UAC), Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cynrychiol'r tri Pharc Cenedlaethol), Dave Throup (Asiantaeth yr Amgylchedd), Tony Harrington (DCWW), Carl Banton (Yr Awdurdod Glo), Phil Stone (Canŵ Cymru), Jean-Francois Dulong (CLILC), Kristian James (Iechyd Cyhoeddus Cymru),

**Ysgrifenyddiaeth: Ceri Jones**

**Aelodau Trwy Ohebiaeth:** Dai Harris (LIC – Cangen y Tir, Natur a Choedwigaeth), Peter Birch (Glandŵr Cymru)

**Pobl Eraill a oedd yn Bresennol:**

- Howard Stephens – Prosiect Afon Alun
- Rebecca Thrower a Matt Hemsworth – (siaradwr) JBA Consulting, prosiect Afon Alun
- Dominic Scott Water – (siaradwr) Cangen Dŵr LIC, sesiwn Systemau Draenio Cynaliadwy

## Eitem 1 Croeso ac ymddiheuriadau (Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd)

Rhoddwyd trosolwg o agenda'r diwrnod a chyflwyniadau gan yr aelodau. Cafwyd rhai ymddiheuriadau munud olaf (a gofnodwyd uchod) oherwydd y pryderon iechyd cyfredol ac effeithiau Storm Dennis.

## Eitem 2 Cadarnhau cofnodion ac adolygu camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol (Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd)

Cadarnhawyd cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf. Nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi cael eu trosglwyddo i'r cyfarfod hwn. Byddai fersiwn derfynol yn cael ei dosbarthu a'i rhoi ar dudalen Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar wefan CNC https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/water/wales-water-management-forum/?lang=cy

## Eitem 3 Prosiect Adfer Afon Alun (Rebecca Thrower – JBA Consulting)

Rhoddwyd cyflwyniad ar y gwaith o Adfer Afonydd sy'n mynd rhagddo yng Nghymru, ac yn benodol yn nalgylch yr Alun, gan gynnwys trosolwg o'r gwaith y mae JBA yn ei wneud ledled Cymru.

**Trafodaeth**

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd trafodaeth eang a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Nifer yr arolygon a oedd yn cael eu cynnal a phryd y byddai'r canlyniad yn cael ei gyflwyno; yr angen i gynnwys dealltwriaeth glir o'r ffactorau cyfyngol a allai rwystro hynny rhag digwydd, er enghraifft cael caniatâd gan dirfeddianwyr.
- Y modd yr oedd y rhain yn cyd-fynd â'r rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan gynnwys ansawdd dŵr a'r modd yr oeddem yn targedu ymgyrchoedd mewn dalgylchoedd i wella ansawdd a swm y dŵr.
- Rhoi ystyriaeth i effeithiau dŵr o fwyngloddiau, yn benodol mewn perthynas ag astudiaeth Afon Alun a chymhlethdodau'r twnnel hanesyddol.
- Sut y mae'r canlyniadau'n cael eu hariannu – trwy reoli perygl llifogydd neu waith rheoli tir, neu rywbeth arall?
- Sicrhau ein bod yn cysylltu ar draws prosiectau ac yn gweithio gyda thirfeddianwyr.

## Eitem 4 Water Resources West (Richard Blackwell – United Utilities)

Rhoddwyd cyflwyniad ar waith Water Resources West. Roedd y gwaith yn cynnwys yr holl waith tynnu dwr, nid y cwmnïau dŵr yn unig, ac yn ymwneud â Chymru a Loegr; hwn oedd yr unig gynllun trawsffiniol. Roedd y grŵp yn edrych ar 2025 a thu hwnt. Disgwylid y cynllun drafft yn 2021, y cynllun terfynol yn 2023, ac iddo gael ei roi ar waith o 2025.

**Trafodaeth**

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd trafodaeth eang a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Y modd yr oedd y gwaith hwn yn cysylltu â'r Cynlluniau Draenio a Dŵr Gwastraff – gan edrych ar gysondeb o ran yr iaith a chyfleoedd i gydlynu.
- Cwestiwn mewn perthynas â'r cynigion trosglwyddo dŵr yn hytrach na Water Resources West.

## Eitem 5 Diweddariad ynghylch Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Rhian Thomas – CNC)

- Ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau
- Gwaith cylch 3
- Dalgylchoedd cyfle ac uchelgais ehangach ar gyfer cylch 3

Cafodd y Fforwm ddiweddariad ar ymgynghoriad Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 'Heriau a Dewisiadau', a oedd bellach wedi cau. Roedd yr ymatebion yn cael eu hadolygu ar y pryd a byddai'r pwyntiau allweddol yn cael eu cynnwys yn y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd drafft, yr oedd disgwyl ymgynghoriad yn eu cylch ym mis Rhagfyr 2020. Rhannwyd yr amserlen i ddarparu'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd diwygiedig, a'r dull gweithredu a ddefnyddid. Roedd y cysylltiadau rhwng yr ymatebion i'r ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau a'r modd yr oeddent yn darparu Dull Gweithredu yn Seiliedig ar Leoedd yn cael eu cynnwys. Byddai'r Dalgylchoedd Cyfle yn cael eu cynnwys ochr yn ochr ag uchelgais tuag at 2027. Byddai rhagor o fanylion ar y gwaith hwn yn cael eu rhannu trwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cynllun Rheoli Basnau Afonydd, a'u cynnwys yn y Fforwm nesaf.

**<u>Trafodaeth</u>**

- Mynegwyd ymholiad ynghylch yr uchelgais ar gyfer y trydydd cylch hwn a beth a fyddai'n digwydd y tu hwnt i 2027?
- Awgrymwyd ei bod yn ofynnol cymryd golwg ehangach ac edrych ar 'becynnau o fesurau'.

## Eitem 6 Datganiadau Ardal – Diweddariad (Richard Dearing – CNC)

Darparwyd trosolwg gan Richard o waith y Datganiadau Ardal, gan ganolbwyntio ar y cyfnod cyn y lansiad ym mis Ebrill. Roeddent yn darparu ciplun mewn amser, ac yn allweddol i hyn oedd y trafodaethau ynghylch pa rai a fyddai'n parhau. Roedd pob un yn cynnwys Themâu a'r weledigaeth benodol ar gyfer yr Ardal, ynghyd â rhestr o'r blaenoriaethau.

## Eitem 7 Systemau Draenio Cynaliadwy: flwyddyn ar ôl y ddeddfwriaeth – gwneud Systemau Draenio Cynaliadwy yn orfodol yng Nghymru (Dominic Scott – Llywodraeth Cymru)

O fis Ionawr 2019, daeth Systemau Draenio Cynaliadwy i fod, gan gynnwys safonau ar gyfer datblygu, cyfarwyddyd a chwestiynau cyffredin.

Cafwyd tua 400 o geisiadau; roeddent wedi disgwyl rhwng 4,000 a 7,000. Ar gyfer 2020, gweithio gyda rhanddeiliaid ac edrych ar unrhyw faterion i wella'r dull gweithredu, gan gynnwys adolygiad o'r dull gweithredu hwn. Gwnaed cais i Undeb Amaethwyr Cymru gymryd rhan fel y gellid edrych ar unrhyw ofynion ar gyfer y gymuned ffermio. Cafwyd

rhywfaint o drafodaeth â'r sector amaeth ynghylch y modd yr oedd hyn yn gweithio a'r angen i wella.

**CAM GWEITHREDU: RLD i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y Systemau Draenio Cynaliadwy**

## Eitem 8 Diweddariad ar Ddŵr (Papur 1) (Ceri Jones – CNC)

Dosbarthwyd Papur 1 cyn y cyfarfod, a gwahoddwyd y Fforwm i ofyn unrhyw gwestiynau.

Roedd y papur yn cynnwys unrhyw ddiweddariadau perthnasol i'r Fforymau eraill –

- Fforwm Rheoli Tir Cymru
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru
- Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG)

## Eitem 9 Unrhyw fater arall

- Diweddariadau'r Cwmnïau Dŵr – rhoddwyd diweddariad cryno ynghylch rhaglen y Cwmnïau Dŵr gan Dŵr Cymru ac United Utilities

## Daeth y cyfarfod i ben am 15:00, a byddai'r cyfarfod nesaf ar 7 Hydref 2020